## Daniel Owen a'i Ddiafol

Ymysg llenorion Cymraeg y mae'n ofynnol i ni roi lle pwysig iawn i Daniel Owen (1836-1895) o'r Wyddgrug. Heddiw cofir amdano fel nofelydd, awdur *Y Dreflan*, *Hunangofiant Rhys Lewis, Enoc Huws* a *Gwen Tomos*, pob un ohonynt yn glasuron ein llên. Ond cofier mai pregethwr oedd ei alwedigaeth ar ôl iddo adael siop y teiliwr yn yr Wyddgrug. Yn y siop y daeth i adnabod cymeriadau'r dref a'r cyffiniau a chael cyfle i ymarfer ei ddawn fel llenor. Dechreuodd bregethu'r Efengyl yn 1864, a blwyddyn yn ddiweddarach aeth i Goleg y Bala i eistedd wrth draed dau ysgolhaig grymus, y Dr Lewis Edwards a'r Dr John Parry. Dau o'i arwyr. Enillodd ysbryd gostyngedig Dr John Parry ei holl fryd. Anwylai'r Dr Lewis Edwards am ei urddas a'i wybodaeth eang o Ddiwinyddiaeth a Llenyddiaeth. Ymserchodd hefyd yn ei gyd-fyfyrwyr a daeth nifer ohonynt yn gyfeillion gweddill ei oes.

Rhaid dweud fod cyfnod Coleg y Bala, er mai dwy flynedd ydoedd ei hyd, yn dra phwysig. Dychwelodd i'r Wyddgrug lle bu weddill ei oes yn llenydda a phregethu pan fyddai ei iechyd yn caniatáu. Fel pregethwr yr oedd yn 'ddifyr ryfeddol i wrando arno' oedd disgrifiad un a'i cofiai. Ond y peth oedd yn ei flino fwyaf oedd y Diafol. Yr oedd hwnnw yn gwbl real iddo. Trueni na luniodd nofel ar Jwdas Iscariot gan ei fod yn poeni'n gyson amdano. Darllenodd waith yr Almaenwr Goethe, a cherdd John Milton i Satan, a Llyfr Job er mwyn dod o hyd i gymeriad Satan. Yn ôl John Morgan, Wyddgrug, un o'i edmygwyr, 'mynnai fod yna rhyw gyfatebiaeth ddirgelaidd rhwng y ddau', hynny yw rhwng Iesu a'r Diafol. Cafodd Iesu'r llaw drechaf ar y diafol bob tro, ac ar Groes Calfaria y llwyddodd i ddinistrio grym y tywyllwch a theyrnas y Fall. Collai Daniel Owen ddagrau yn gyson wrth greu ei gymeriadau. Diolchwn ni am iddo fod mor ddiddorol fel llenor a phregethwr yr Efengyl.

***D. Ben Rees***